# Ffeithlen y Fronfraith


© Tony Wills

**Bwriad y ffeithlen hon yw darparu'r wybodaeth gefndirol angenrheidiol i athrawon ddefnyddio'r cynlluniau gwersi a'r taflenni gwaith yn hyderus. Ymhlith nifer o wefannau eraill a allai fod yn ddefnyddiol mae Wicipedia, ARKive, BBC Nature, Naturenet, RSPB a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt.**

## Bronfraith

Lladin: *Turdus philomelos*

Aderyn cyfarwydd a phoblogaidd yr ardd yw'r fronfraith y mae ei nifer yn dirywio'n ddifrifol, sydd wedi arwain at ei dynodi'n rhywogaeth y Rhestr Goch. Mae'r fronfraith yn llai ac yn fwy brown na brych y coed. Mae gan y fronfraith gân unigryw, gyda chymalau cerddorol ailadroddus. Mae'n adeiladu nyth daclus ar ffurf cwpan wedi'i leinio â llaid mewn llwyn neu goeden, ac yna mae'n dodwy pedwar neu bump o wyau glas â smotiau tywyll. Mae'r fenyw yn eistedd ar yr wyau i'w deor ar ei phen ei hun am rhwng 10 a 17 o ddyddiau; mae'r cywion yn magu plu ar ôl cyfnod tebyg eto. Byddant yn ceisio magu dwy neu dair nythaid y flwyddyn.

Maent yn defnyddio cynefinoedd sy'n cynnwys llwyni a choed megis coedydd, gwrychoedd, parciau a gerddi ledled y DU.

Mae'r fronfraith yn mynd yn ysglyfaeth yn aml i gathod ac adar ysglyfaethus, tra bod hwythau'n bwyta mwydod, ffrwythau a malwod, gan eu taro yn erbyn cerrig i dorri'r gragen.

Mae arferion ffermio dwys wedi cael eu beio am ddirywiad difrifol a chyflym yn y boblogaeth. Mae cyflwyno plaladdwyr a symud terfynau caeau megis gwrychoedd wedi lleihau'r bwyd a'r lloches sydd ar gael i'r fronfraith a llawer o rywogaethau eraill. Roedd ffermydd yn y gorffennol yn tueddu i gynnwys gwahanol fathau o gynefinoedd megis pyllau, coedlannau, cnydau a chaeau agored a oedd yn cynnal amrywiaeth o blanhigion blodeuol. Erbyn heddiw, mae ffermwyr fel arfer yn magu da byw neu dyfu cnydau, tra bod nodweddion megis gwrychoedd, hen waliau cerrig a phyllau wedi cael eu difetha. Mae caeau wedi cael eu haredig a'u hail-hau â hadau o un rhywogaeth o wair neu rywogaeth sy'n cynhyrchu ond un cnwd yn unig, ac mae hyn yn disodli'r amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion sydd ar gael, gan leihau nifer y rhywogaethau di-asgwrn-cefn sy'n byw ynddynt o ganlyniad.

Mae bronfreithod hefyd mewn perygl o gael eu gwenwyno oherwydd y defnydd cynyddol o blaladdwyr – yn benodol pelenni gwlithod a malwod a ddefnyddir mewn gerddi. Gallant hefyd gael eu lladd ar heolydd wrth ddefnyddio'r arwyneb caled i dorri cregyn malwod.